

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
Tachwedd 6ed, 2018**

Presennol: Tyly Roberts, (Cadeirydd), Eleri Jones, Emyr Jones, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd.
2. Nid oedd ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.
3. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Medi 2018.
4. Materion yn codi o gyfarfod :
 - i. Cytunwyd ar enw ar gyfer cyfethol aelod i'r Cyngor; bydd y Clerc yn cysylltu.
 - ii. Archebwyd Hysbysfwrdd ar y cyd rhwng y Capel a'r Cyngor. Dywedodd Gwyn Roberts ei fod yn cyrraedd yr wythnos hon a gwirfoddolodd i'w osod yn ei le. Diolchwyd iddo am ei gymwynasgarwch.
5. Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir. Dywedodd Alan Jones Evans y byddai yn holi eto am dorri'r coed yn ôl wrth bont Rhosygwaliau ac am fin cymunedol ychwanegol i'w gosod wrth ffordd Dolwen Isa'.

Dywedodd ei fod wedi bod yn trafod safle ail-gylchu maes parcio Llangywer gyda Dylan Rees Davies, a'i fod yn falch fod y sefyllfa'n foddhaol erbyn hy. Mynegodd falchder o weld peiriant talu-am-barcio newydd yno.

Mae'r adran berthnasol yn gwybod am y clawdd lle mae gordyfiant wrth y Fach Ddeiliog.

Mynychodd gyfarfod a drefnwyd gan Gyngor Gwynedd yn Ysgol y Berwyn i drafod toriadau a fydd yn debygol o fod yn £11 miliwn i gyllid y Sir; roedd yn falch o weld cynulleidfa niferus yno.

Derbyniwyd gwybodaeth fod y Comisiwn Ffiniau yn dymuno symud Cyngor Cymuned Llangywer i ofal Cynghorydd Llandderfel. Cytunwyd i fynegi gwrthwynebiad oherwydd cysylltiadau hanesyddol a diwylliannol yr ardal gyda phlwyf Llanuwchllyn. Cytunwyd mai newid am resymau tila cyfartaledd nifer fach o etholwyr ydyw bwriad y cynnig, ac na ddylai ychydig bach o wahaniaeth mewn niferoedd dorri ar y drefn bresennol.

Diolchwyd i Alan Jones Evans am ei waith trylwyr.

6. Materion ariannol:

- a. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol a chytunwyd i dalu'r biliau.
- b. Derbyniwyd adroddiad BDO, yr Archwilwyr Allanol. Nodwyd y sylw a wnaethpwyd.

Arwyddwyd..... (Cadeirydd)(Clerc)

- c. Derbyniwyd gwybodaeth fod Maes Carafanau Pant yr Onnen wedi casglu £420 tuag at gynnal y ddau di-ffib yn y Gymuned (cyfrif sydd yn cael ei reoli gan Bwyllgor y Neuadd). Diolchwyd iddynt am eu hymdrechion.

7. Gohebiaeth:

- a. Triathlon - derbyniwyd neges gan lolo Tegid am y cynigion diweddaraf a chytunodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Sir fynegi barn y Cyngor yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd na ddylid cynnal yr achlysur hwn yn ystod Mehefin, Gorffennaf nag Awst, ac y dylid osgoi penwythnos cyntaf Medi (Gŵyl Llanuwchllyn).
- b. Cytunwyd i gymeradwyo ceisiadau cynllunio
 - a. NP5/70/153A sef 2 Plas Onn Llangywer (amrywiad ar gais blaenorol)
 - b. NP5/70/LB7U sef uned tewychu yn y Fach Ddeiliog, Gwesty Llyn Y Bala (amrywiad ar gais blaenorol)
 - c. NP5/70/151 sef estyniad deulawr i Madoc, Llanuwchllyn
8. Ymunwyd gyda Chyngor Cymuned Llanuwchllyn i dderbyn hyfforddiant Un Llais Cymru ar Gynllunio Cymunedol yn yr Ysgoldy, Llanuwchllyn. Cytunwyd ei fod wedi bod yn brofiad gwerthfawr i gyd-weithio a chymdeithasu.
9. Cytunwyd i drafod llythyr Howard Huws, Cylch yr Iaith, yng nghyfarfod Ionawr o'r Cyngor.
10. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 14/1/19 yn Neuadd Llangywer am 7.30pm.